

Dewch i greu'r dyfodol gyda'n gilydd

Pecyn Cymorth

Ysgolion

Ar gyfer Athrawon



Rhagair

Helo!

Fy enw i yw Sophie a fi yw Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Mae angen eich help arna i wrth i mi ysgrifennu fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol cyntaf. Mae'r gwaith hwn yn bwysig iawn, am ei fod yn amlinellu'r cynnydd rydym ni wedi'i wneud yng Nghymru er mwyn llwyddo i gael y Gymru rydym ni eisiau'i chael, fel y mae'n cael ei amlinellu yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Mae hefyd yn amlinellu'r newidiadau sydd angen i ni eu gwneud nawr ac yn y dyfodol. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan, ac yn cael ei rannu gyda Llywodraeth Cymru, Cynulliad Cymru a chyrrff cyhoeddus.

Un o'r ffyrdd y gallwch chi gymryd rhan yw drwy ddefnyddio'r cynllun gwers a'r adnoddau yn y pecyn offer hwn, ac yna anfon eich syniadau atom ni dros e-bost: contactus@futuregenerations.wales neu drwy Twitter gan ddefnyddio'r hashnod #CymruEinDyfodol. Byddem ni wrth ein bodd o weld lluniau a fideos ohonoch chi'n cymryd rhan. Efallai y bydd modd i ni roi sylw iddyn nhw yn ein hadroddiad neu yn y gwaith o'i hyrwyddo. Rydw i eisiau sicrhau fod pobl ifanc ledled Cymru'n rhan o greu'r dyfodol ble rydym ni eisiau byw.

Diolch i chi am gymryd rhan!


Sophie Howe




Nodau Llesiant

Er mwyn i ni gael y Gymru rydym ni eisiau'i chael – cytunwyd ar 7 nod llesiant cenedlaethol:

- Cymru llewyrchus – ble rydym ni'n sicrhau bod gennym sgiliau da ar gyfer swyddi, ble nad yw busnesau'n niweidio'r amgylchedd, a ble does dim tlodi.
- Cymru gydnerth – ble rydym ni'n gwarchod a gwella natur a bioamrywiaeth.
- Cymru iachach – ble mae pawb yn fwy iach ac yn gallu gweld y meddyg pa fydd angen
- Cymru sy'n fwy cyfartal – ble mae gan bawb gyfle cyfartal, waeth beth fo'u cefndir
- Cymru o gymunedau cydlynus – ble gall Cymunedau fyw'n hapus gyda'i gilydd
- Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu – ble mae gennym lawer o gyfleoedd i wneud pethau gwahanol a ble gall llawer o bobl siarad Cymraeg.
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang – be rydym ni'n meddwl am sut mae ein gweithredoedd yn cael effaith ar bobl a lleoliadau eraill o gwmpas y Byd.





CYNNWYS Y PECYN

5 Y Cwestiynau

6 Cynllunio ar gyfer y Dyfodol

16 Cwis

18 Manylion Cyswllt

Y Cwestiynau

1

Mae gennym 4 cwestiwn yr hoffem ni i'r disgyblion eu hateb. Hoffem ni pe gallai ysgolion gofnodi'r atebion ac anfon y canlyniadau at: contactus@futuregenerations.wales

Anfonwch eich atebion atom erbyn 1 Tachwedd 2019 os gwelwch yn dda.

Ble bo'n bosib, dylid annog disgyblion i ofyn y cwestiynau hyn i'w teulu, perthnasau a ffrindiau. Gellid gosod hyn fel gwaith cartref, neu gellid ei wneud drwy'r ysgol gyfan mewn gwrs ABCh.

Anogir i chi ddefnyddio'r holiadur ar-lein lle bo'n bosib. Gallwch ddod o hyd i'r holiadur arlein drwy ddilyn y linc QR neu drwy wasgu yma.

Os gwelwch yn dda, wnewch chi ofyn...

- Beth wyt ti'n hoffi am le rwyd ti'n byw?
- Beth wyt ti am newid ynglŷn â ble rwyd ti'n byw?
- Pa sgiliau fydd eu hangen ar blant yn y dyfodol?
- Beth sydd yn dy boeni neu'n dy gyffroi am y dyfodol?



Y Cwestiynau

1

Cwestiwn 1

Beth wyt ti'n ei hoffi am le rwyd ti'n byw?

Cwestiwn 2

Beth wyt ti am newid ynglŷn â ble rwyd ti'n byw?

Y Cwestiynau

1

Cwestiwn 3

Pa sgiliau fydd eu hangen ar blant yn y dyfodol?

Question 4

Beth sydd yn dy boeni neu'n dy gyffroi am y dyfodol?

Cynllunio ar gyfer y dyfodol

2

Deilliannau Dysgu


Rydym ni'n dysgu i:

- Ddatgan beth yw cymuned gysylltiedig, a beth yw manteision hynny i'r dinasyddion sy'n byw ynddi.
- Enwi rhai o'r swyddi gwahanol sy'n gysylltiedig â datblygu cymunedau
- Gweithio gyda'n gilydd ar adrannau gwahanol o'r Cynllun Mawr ar gyfer dinas y dyfodol, er mwyn dychmygu ein hunain mewn rolau cynllunio trefol amrywiol.

Deunyddiau / Adnoddau Angenrheidiol

- Cyflwyniad PowerPoint 'Cynllunio sy'n addas ar gyfer y dyfodol'
- Taflenni wedi'u hargraffu o'r Cynllun Mawr
- Taflenni Prif Gynllunwyr Cymuned y Dyfodol
- Fideo Megan (cyflwyniad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).

Rydym ni wedi cynnwys yr wybodaeth isod yn adrannau'r 'nodiadau'r siaradwr' perthnasol ar y cyflwyniad PowerPoint.



Cynllunio ar gyfer y dyfodol

Sleid 1

- Esboniwch i'r dosbarth eu bod nhw'n mynd i fod yn helpu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

Sleid 2


- Esboniwch i'r dosbarth eich bod chi yn mynd i drafod 'cynllunio ar gyfer y dyfodol'

Sleid 3

- Esboniwch i'r dosbarth eich bod chi am iddyn nhw fod yn greadigol ac yn gydweithredol

Sleid 4

- Dangoswch Fideo Megan
- Gofynnwch i'r dosbarth am eu sylwadau



Sleid 5

- Cyflwynwch y 7 nod llesiant unwaith eto
- Gallwch ddod o hyd i ddiffiniadau mwy 'plentyn-gyfeillgar' ar dudalen 3

Sleid 6

- Cyflwynwch y 4 agwedd ar ddatblygu cynaliadwy
- Esboniwch eu bod oll yn bwysig pan fyddwn ni'n gwneud penderfyniadau

Cynllunio ar gyfer y dyfodol

Sleid 7

Gofynnwch y cwestiynau canlynol i'r dosbarth:

- Beth mae'r ymadrodd 'cymuned gysylltiedig' yn ei olygu i chi?
- Sut bydd pobl yn cysylltu â'i gilydd?
- Pryd a ble fydd pobl yn cysylltu yn eich cymuned?
- Beth sy'n dda am fod yn gysylltiedig?
- Ydych chi'n meddwl fod cymuned gysylltiedig yn helpu pobl i ddeall ei gilydd?
- Sut allem ni weithio gyda'n gilydd yn ein cymuned i helpu pobl i ddeall ei gilydd?
- Beth sy'n gallu helpu eich llesiant yn eich cymuned?

Esboniwch fod cymuned gysylltiedig yn lle ble gall pobl ddod ati ei gilydd yn hawdd er mwyn defnyddio technoleg, diwylliant a'r celfyddydau, rhannu syniadau, mwynhau llecynnau yn yr awyr agored, a chydweithio.

Ymysg manteision cymuned gysylltiedig i'w dinasyddion mae:

- Bydd yn ysbrydoli pobl i rannu syniadau ac i greu
- Bydd yn hawdd defnyddio trafndiaeth i symud o gwmpas
- Bydd yn annog dinasyddion i fod yn chwilfrydig ac i gymryd rhan
- Bydd yn eu helpu i gael cydbwysedd da rhwng byw, gweithio a chwarae, drwy ei gwneud hi'n hawdd mynd a dod o'r gwaith i'r cartref neu i weithgareddau hamdden.

Slide 8

Rhowch gyfle i'r grwpiau roi adborth ac i drafod beth maen nhw'n ei hoffi am eu cymunedau, ac ysgrifennwch hyn ar siart fflip neu fwrdd gwyn. Croesewir enghreifftiau penodol.

Slide 9

Rhowch gyfle i'r grwpiau roi adborth ac i drafod beth nad ydyn nhw yn ei hoffi am eu cymunedau, ac ysgrifennwch hyn ar siart fflip neu fwrdd gwyn. Croesewir enghreifftiau penodol.

Cynllunio ar gyfer y dyfodol

Sleid 10

- Esboniwch mai enw'r brif ddogfen gynllunio a ddefnyddir wrth gynllunio cymuned yw'r Cynllun Mawr.
- Mae Cynllun Mawr yn rhoi manylion ynghylch sut le fydd dinas yn y dyfodol, er mwyn peri iddi ddod yn lle gwell i fyw a gweithio ynddi. Mae'r Cynllun Mawr yn dangos manylion am bob agwedd ar fywyd cymunedol, fel trafndiaeth, tai, iechyd, addysg, defnydd ar gyfer busnes a diwydiant, ardaloedd cyhoeddus a llecynnau gwyrdd.
- Esboniwch mai'r enw ar lawer o'r gwaith gwneud penderfyniadau am ardaloedd amrywiol cymuned yw cynllunio trefol.

Sleid 11

- Bwriad y sleid hon yw peri i'r disgyblion ddeall fod y byd yn newid
- Esboniwch ei bod hi'n bwysig, o ganlyniad, i ni gynllunio ar gyfer newidiadau fel hyn

Sleid 12 -18

- Mae'r sleidiau hyn yn dangos esblygiad arloesi a chreadigrwydd
- Esboniwch fod pob syniad (tŷ) yn wahanol a bod angen llawer o gynllunio
- Mae'r tŷ sydd uwchben y dŵr wedi'i gynllunio i hedfan fel tŷ gwyliau gan ddefnyddio drôn
- Mae'r tŷ o dan y dŵr wedi'i gynllunio i ddilyn yr haul neu hinsawdd benodol

Sleid 19-

- Gyfydd y dosbarth yw bod yn gynllunwyr trefol
- Byddan nhw'n ymgymryd â rolau gwahanol mewn timau. Rydym ni'n awgrymu eich bod chi' cyflwyno taflenni un dudalen (tudalennau 12-15) i'r timau perthnasol.
- Mae arbenigwyr amgylcheddol yn deall sut i warchod yr amgylchedd, a defnyddio'u sgiliau i gynghori cynllunwyr trefol eraill ynghylch sut i warchod bywyd gwyllt a byd natur.
- Gwaith pwyllgorau trafndiaeth yw sicrhau fod y gymuned wedi'i chysylltu'n dda ar gyfer ei dinasyddion, gyda heolydd da a thrafnidiaeth gyhoeddus ddibynadwy, yn ogystal â rhodfeydd cerdded cyhoeddus a llwybrau seiclo. Rhaid i'r tîm hwn hefyd ystyried effaith trafndiaeth ar yr amgylchedd.
- Mae timau llesiant a hapusrwydd yn sicrhau y bydd gan ddinasyddion gyfle i fwynhau llecynnau a chyfleusterau a fydd yn hybu bywydau iach a hapus, gan ddefnyddio ymchwil oddi wrth wyddonwyr.
- Mae arbenigwyr addysg yn helpu penseiri i feddwl sut y bydd adeiladau a llecynnau'n lles i ddysgu. Maen nhw hefyd yn helpu i roi siâp ar ein syniadau ynglŷn â'r dyfodol ac i greu gweithgareddau ac adnoddau dysgu a fydd yn ein herio ni ac yn newid ein ffordd o feddwl.

Arbenigwyr

Amgylcheddol



Mae arbenigwyr amgylcheddol yn gwybod sut i warchod yr amgylchedd. Maen nhw'n defnyddio'u sgiliau i gynghori ar sut i warchod bywyd gwylt a byd natur, a sut i helpu trigolion i fwynhau llecynnau cymunedol gwyrdd a naturiol.

- Ystyriwch pa barciau a llecynnau gwyrdd y byddech chi'n eu cynnwys.
- Gweithiwch gyda'ch gilydd i gynllunio parc bach neu lecyn naturiol yn y ddinas.
- Gwnewch yn siŵr bod eich cynllun yn cynnwys ardaloedd a chyfleusterau ar gyfer:
 - Byw'n iach ac ymarfer corff
 - Ardaloedd cysgodol, oer-braf
 - Bywyd gwylt a phlanhigion
- Sut allai eich parc chi fod yn 'glyfar' (defnyddio technoleg) a chysylltu â'r ddinas i rannu gwybodaeth, gwarchod yr amgylchedd a gwneud y lle'n well ar gyfer pobl?

Pwyllgor

Trafnidiaeth



Y pwyllgor trafndiaeth sy'n sicrhau fod gan y gymuned y cysylltiadau cywir ar gyfer ei dinasyddion, gyda thrafnidiaeth gyhoeddus dda, rhodfeydd cyhoeddus a llwybrau beicio. Mae'n ystyried yr effaith y bydd trafndiaeth yn ei chael ar

- Meddylwch sut y gallai trigolion deithio'n hawdd rhwng lleoliadau.
- Cynlluniwch ffyrdd cynaliadwy o deithio rhwng lleoliadau.
- Pa fath o fenter neu ysgogiad allech chi eu creu er mwyn gadael i bobl ddefnyddio trafndiaeth gynaliadwy?

Tîm Llesiant a Hapusrwydd



Mae Llesiant a Hapusrwydd yn rhan bwysig o'r gwaith o greu cymuned. Mae'r tîm Llesiant a Hapusrwydd yn defnyddio ymchwil gan arbenigwyr i gynllunio llecynnau a chyfleusterau sy'n helpu pob preswylydd i fyw bywyd iach a hapus.

- Meddyliwch am y pethau sy'n gallu helpu trigolion i fod yn ddinasyddion hapus ac iach.
- Cofiwch feddwl am anghenion plant, teuluoedd, pobl ifanc, a phobl sy'n gweithio.
- Cynlluniwch boster sy'n dangos pa gyfleusterau a gweithgareddau y byddech chi'n eu darparu. Gallwch feddwl am yr holl drigolion, neu ganolbwyntio ar un grŵp. Efallai yr hoffech chi feddwl am:
 - Byw llesol
 - Bwyta'n iach
 - Cymunedau cynhwysol
 - Ymlacio ac adloniant

Arbenigwyr

Addysg




Mae arbenigwyr addysg yn helpu i roi siâp ar ein syniadau am y dyfodol. Maen nhw'n creu ffyrdd o ddysgu i'n herio ni ac i newid ein ffordd o feddwl.

- Pa weithgareddau allai gyffroi pobl ifanc am y dyfodol a'u helpu i feddwl mewn ffyrdd newydd?
- Sut fyddai ysgol y dyfodol yn edrych?
- Sut all hi fod yn fwy cynaliadwy?
- Sut allai'r ysgol gyflawni pob un o'r 7 Nod Llesiant Cenedlaethol?

Y Cynllun Mawr

Defnyddiwch y cynllun mawr hwn ar y diwedd i ddarlunio eich 'cymuned gysylltiedig' gan gynnwys pob elfen a gytunwyd gennych.



Cynllunio ar gyfer y dyfodol

Gweithgaredd Ychwanegol

Dyma rai o'r heriau y gallech chi eu hawgrymu i'r timau yn ystod eu tasg er mwyn peri iddyn nhw feddwl am eu gweithredoedd a'u syniadau. Mae croeso i chi ychwanegu rhai drosoch eich hun.

Her

Rydych chi wedi derbyn deiseb wedi'i harwyddo gan 500 o bobl sy'n credu nad ydych chi wedi ystyried digon o lecynnau gwyrdd yn eich cynllun.

Her

Rydych chi dros eich cyllideb ar eich cynllun a rhaid i chi wneud toriadau.

Her

Mae busnes mawr eisiau symud i'r ardal gan greu 300 o swyddi.

Her

Mae rhywun enwog wedi ymuno ag ymgyrch sy'n galw arnoch chi i fuddsoddi mwy o arian mewn lonydd seiclo.

Her

Mae'r cyfryngau'n mynd i gyhoeddi stori sy'n honni nad ydych chi wedi cynnwys y gymuned wrth gynllunio.

Her

Dydych chi ddim wedi ystyried cyfleoedd ar gyfer rhoi cyfle i drigolion deithio'n gynaliadwy.

Cynllunio ar gyfer y dyfodol

Gweithgaredd Ychwanegol

Efallai yr hoffech annog y disgyblion i ymchwilio i wlad arall a darganfod beth maen nhw'n ei wneud sy'n arloesol a chynaliadwy, sy'n helpu cymunedau yn y meysydd hyn:

- Amgylchedd
- Trafnidiaeth
- Llesiant a Hapusrwydd
- Addysg
- Tai
- Iechyd
- Diwylliant
- Technoleg

Cwestiwn 1

Sawl swydd ledled y byd fydd wedi newid erbyn 2022, yn ôl yr amcangyfrifon, oherwydd technoleg awtomeiddio a newidiadau yn y gweithle?

- a) 500,000 b) 25 miliwn c) 75 miliwn

Cwestiwn 2

Pa ganran o oedolion Cymru sydd ar hyn o bryd dros bwysau neu'n or-dew?

- a) 25% b) 65% c) 47%

Cwestiwn 3

Pa oedran yw'r un ble mae hanner pob problem iechyd meddwl yn dechrau? a) 25

- b) 14 c) 40

Cwestiwn 4

Erbyn 2039, amcangyfrifir y bydd nifer y bobl sydd dros 65 mlwydd oed wedi codi gan ba ganran? a)

- 44% b) 28% c) 14%

Cwestiwn 5

Pa ganran y mae trafndiaeth yn ei gyfrannu i allyriadau nwyon tŷ-gwydr Cymru?

- a) 10% b) 14% c) 20%

Cwestiwn 6

Pa ganran o boblogaeth y byd fydd yn byw mewn ardaloedd trefol erbyn 2050?

- a) 50% b) 35% c) 68%

Cwestiwn 7

Ers 1970, pa ganran o famaliaid, adar, pysgod ac ymlusgiaid y byd sydd wedi cael eu colli?

- a) 60% b) 24% c) 40%

Cwestiwn 8

Ble greodd yr adeilad swyddfa gyntaf i gael ei hargraffu'n 3D?

- a) USA b) Dubai c) Japan

Cwestiwn 9

Pa ganran o deuluoedd Cymru sydd ddim yn defnyddio car?

- a) 5% b) 15% c) 25%

Cwestiwn 10

Pa ganran o deuluoedd Cymru sydd ddim yn defnyddio car?

- a) 50,000 b) 165,000 c) 105,000

Atebion

Ateb 1

Sawl swydd ledled y byd fydd wedi newid erbyn 2022, yn ôl yr amcangyfrifon, oherwydd technoleg a newidiadau yn y gweithle?

- a) 500,000 b) 25 miliwn c) 75 miliwn

Ateb 2

Pa ganran o oedolion Cymru sydd ar hyn o bryd dros bwysau neu'n or-dew?

- a) 25% b) 65% c) 47%

Ateb 3

Pa oedran yw'r un ble mae hanner pob problem iechyd meddwl yn dechrau?

- a) 25 b) 14 c) 40

Ateb 4

Erbyn 2039, amcangyfrifir y bydd nifer y bobl sydd dros 65 mlwydd oed wedi codi gan ba ganran? a)

- 44% b) 28% c) 14%

Ateb 5

Pa ganran y mae trafndiaeth yn ei gyfrannu i allyriadau nwyon tŷ-gwydr Cymru?

- a) 10% b) 14% c) 20%

Ateb 6

Pa ganran o boblogaeth y byd fydd yn byw mewn ardaloedd trefol erbyn 2050?

- a) 50% b) 35% c) 68%

Ateb 7

Ers 1970, pa ganran o famaliaid, adar, pysgod ac ymlusgiaid y byd sydd wedi cael eu colli?

- a) 60% b) 24% c) 40%

Ateb 8

Ble greodd yr adeilad swyddfa gyntaf i gael ei hargraffu'n 3D?

- a) USA b) Dubai c) Japan

Ateb 9

Pa ganran o deuluoedd Cymru sydd ddim yn defnyddio car?

- a) 5% b) 15% c) 25%

Ateb 10

Pa ganran o deuluoedd Cymru sydd ddim yn defnyddio car?

- a) 50,000 b) 165,000 c) 105,000

Cysylltwch

Ein Gwefan

www.futuregenerations.wales

Ein E-bost

contactus@futuregenerations.wales

Ein Rhif Ffôn

02921 677 400

Twitter

[@futuregencymru](https://twitter.com/futuregencymru)

**Cofiwch rannu eich gwaith a'ch syniadau gyda ni ar Twitter
#CymruEinDyfodol**



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales

